

Gwers 4 –
Cadw'n
ddiogel



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Amddiffyniad

Lefel Gradd:

Teitl y Wers: Cadw'n ddiogel

Amcan Dysgu:

- Datblygu dealltwriaeth o gadw'n ddiogel
- Gwybod beth sy'n ein gwneud ni'n ddiogel
- Gwybod pa bobl neu leoedd sy'n gwneud i ni deimlo'n ddiogel

Er budd y myfyrwyr, esboniwch beth bydd y myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hynny.

Bydd Rhai Dysgwyr: Yn gallu nodi person/lle sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel a rhoi rhesymau pam maen nhw'n teimlo'n ddiogel

Bydd Mwyafrif y Dysgwyr: Yn gallu nodi person/lle sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel

Bydd yr Holl Ddysgwyr: Yn profi beth mae cadw'n ddiogel yn ei olygu

Cwestiynau Allweddol:

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwers hawliau ddiwethaf?
- Oes unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Pwy sy'n gallu meddwl am ffyrdd mae angen ein hamddiffyn/ein cadw'n ddiogel?
- Pwy sy'n gallu meddwl am rywun sy'n ein helpu?
- Sut maen nhw'n ein helpu ni?

Deunyddiau/Adnoddau angenrheidiol:

- Stori Gymdeithasol – “Cadw'n Ddiogel”
- Pecyn lluniau – “Amddiffyniad”
- Cardiau Symbolau
- Gwrthrychau i gyfeirio atynt

- Llyfryn "Fy Hawliau i"

Cyflwyniad:

Crynowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw at yr agweddau allweddol i'r disgyblion.

Cyflwynwch y gair "Amddiffyniad". Esboniwch fod amddiffyniad yn golygu'r un peth â rhywun yn gofalu amdanoch chi, a bod hawl gan bob plentyn i fod yn ddiogel.

Rhannwch y pecyn lluniau "Amddiffyniad" gyda'r grŵp. Trafodwch beth mae'r lluniau'n ei ddangos a gofynnwch i'r dysgwyr eu dehongli. Siaradwch am bob erthygl mae'r lluniau'n eu cynrychioli, a defnyddiwch gardiau symbolau neu wrthrychau cyfeiriadol i gefnogi dealltwriaeth y disgyblion.

Fel grŵp – darllenwch y Stori Gymdeithasol "Cadw'n Ddiogel".

Prif Weithgaredd:

Oherwydd natur sensitif trafod "cadw'n ddiogel", cyn dechrau'r wers mae'n bwysig atgoffa'r disgyblion pwy gallen nhw siarad â nhw yn eich ysgol os ydyn nhw'n poeni am unrhyw beth. "Gallwch chi siarad â fi (neu oedolyn penodol yn yr ysgol) os ydych chi'n poeni am unrhyw beth rydyn ni'n siarad amdano fe yn y sesiynau yma".

Trafodwch beth sydd ei angen arnon ni i deimlo/fod yn ddiogel? Tynnwch sylw at bwysigrwydd byw mewn tŷ, teulu, ffrindiau, cadw'n iach, addysg, gofal meddygol a'u cysylltu'n benodol â'r hawliau priodol.

Gofynnwch i'r plant sut mae ein teulu a'n ffrindiau'n gwneud i ni deimlo a sut maen nhw'n ein helpu ni. Gofynnwch i'r plant nodi aelodau o'u teulu agos a'u grwpiau o ffrindiau. Gofynnwch i'r plant nodi rhywun sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel.

Soniwch am fannau diogel/arbennig a rhowch enghraifft fel eich stafell wely, hoff le chwarae neu dŷ, ac esboniwch wrth y dosbarth pam rydych chi'n teimlo'n ddiogel yno. Rhowch gyfleoedd i'r disgyblion siarad am eu "mannau diogel/arbennig" neu eu dewis, ac ysgrifennu amdany'n nhw, gan roi rhesymau. Fel arall, gallech chi ofyn i'r dosbarth ysgrifennu am eu hoff le neu am berson sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel.

Parhaus:

Fel gweithgaredd estyn, gallai pawb yn y dosbarth ddefnyddio ardal ddysgu awyr agored (neu yn y dosbarth) a chydweithio i greu cuddfan (gweler gwrs 9 – Goroesi). Llenwch dudalen 9 o'r Llyfryn Fy Hawliau i (Mae fy nheulu'n fy helpu trwy...)

Sesiwn Lawn:

Crynhoi'r wers:

- Beth rydyn ni wedi'i ddysgu heddiw?
- All unrhyw un enwi hawl sy'n eich helpu i gadw'n ddiogel?
- Pwy sy'n eich helpu i deimlo'n ddiogel?
- All unrhyw un sôn wrth y dosbarth am rywle lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel?

Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):

Gall dealltwriaeth gael ei hasesu trwy holi ac adborth llafar. Bydd hunanasesu yn hybu Dysgu Ychwanegol Pellach wrth i'r ddsgwyr roi rhesymau priodol a dangos dealltwriaeth o beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel. Cyfeiriwch yn ôl at amcanion y wers – ydyn nhw wedi cael eu cyflawni?

Gwahaniaethu:

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion priodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectwm Awtistig (ASD) lefel isel â PECS/Iluniau cyfeiriadol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anabledau Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD) mewn gweithgaredd synhwyraidd parasiwt

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru @complantcymru neu e-bostio post@complantcymru.org.uk

